cbac
wjec

# TAG UWCH

1000N60-1

S18-1000N60-1

## CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 6
**Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun (Papur Ysgrifenedig)**

DYDD LLUN, 4 MEHEFIN 2018 – BORE

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **1 AWR** ar Adran A ac **1 AWR** ar Adran B.

Cofiwch dreulio amser digonol yn cynllunio eich atebion.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A – GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH

**1.** Darllenwch yn ofalus y gerdd 'Nadolig 1966' isod ac yna atebwch y cwestiwn a ganlyn.

Ysgrifennwch **draethawd** yn dadansoddi **cynnwys** ac **arddull** y gerdd.

Wrth ddadansoddi, dylech gofio:

- defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau
- cyfeirio at **weithiau llenyddol eraill** yr ydych yn gyfarwydd â nhw sydd yn ymdrin â **thema neu themâu** tebyg gan drafod a yw'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol.

*(Gallwch gyfeirio at weithiau Cymraeg perthnasol a ddarllenwyd neu a welwyd yn ogystal â thestunau a astudiwyd gennych.)* [40]

### NADOLIG 1966

*Ar 13 Hydref, 1966, ar raglen deledu, gofynnodd holwr i bobl yn ninas Durham pam y gwrthodwyd caniatâd i roddi siop wag yn ddi-dreth i elusen adeg y Nadolig. Roedd cymdeithas ddyngarol am werthu cardiau a rhannu'r elw ymhlith y newynog a'r tlawd. Atebion fel y rhai sydd ar ddechrau'r gerdd a gafwyd.*

A ddaw'r Nadolig i Ddurham,
A gofir yno'r Oen dinam?

*            *            *

'Mae bod yn ffeind yn iawn yn ei le
Ond i bobol dalu trethi 'dych chi'n deall, ynte?'

'Adeg busnes ydi dechra' Rhagfyr yma,
'Does 'na ddim lle i'r rhai sydd â'u bryd ar gardota.'

'Fel siopwr fy hun mae'n rhaid i mi ddweud
Fod y cyngor yn iawn yn yr hyn maen nhw'n 'wneud,
Achos unwaith dechreuith peth fel hyn yn y dre'
Fe all o ehangu i wn-i-ddim-ble.'

        'Oni chredwch chi fod yr amser hwn
        Yn adeg i geisio ysgafnu pwn
        Y sawl sy'n llwythog, neu'n adeg i roi
        I'r noeth a'r newynog?'

' 'Does gen i ddim yn erbyn rhoi, nid dyna 'di'r peth,
Ond bod y bobol hyn am osgoi talu'r dreth.
'Rydw i'n ddigon bodlon i bawb fod yn hael
Ond i hynny beidio â bod ar fy nhraul
I.'

'Nadolig a busnes – dyna bâr blydi grêt!
Mae rhincian am ewyllys da owt of dêt.'

*            *            *

Yn y wlad honno,
Liw nos yn y maes, y bugeiliaid:
‘Ac wele angel yr Arglwydd
A safodd gerllaw iddynt,
A gogoniant yr Arglwydd
A ddisgleiriodd amdanynt.’

*          *          *

Yn y wlad honno
Liw nos dan y sêr daeth y doethion:
‘Canys gwelsom ei seren Ef
Yn y dwyrain a daethom
I’w addoli Ef.’

*          *          *

A lathrwyd y byd gan oleuni’r nef?
A ddisgleiriwyd y nos gan ei seren Ef?

Tywyllwch. Ac yn y tywyllwch, hongian.
Yn y tywyllwch, hoelion.
Gwlyb yn y tywyllwch yw’r gwaed.
Gallwn adnabod y lladd.

Ond oni fu felly eni?
Oni fu felly oleuni?

O Fair fam,
A ddaw’r geni,
A ddaw’r goleuni,
A ddaw’r Nadolig i Ddurham?

**ADRAN B – Y GYMRAEG MEWN CYD-DESTUN**

**2.** Lluniwch **adroddiad i bapur newydd** sy'n trafod y galw i godi tâl i gerdded a pharcio er mwyn cerdded mynyddoedd Cymru.

Bydd angen i chi ddewis a dethol ffeithiau addas ar gyfer yr adroddiad, rhoi trefn arnynt ac ysgrifennu'n gryno ac yn bwrpasol. Gallwch hefyd dynnu ar eich profiadau/gwybodaeth bersonol pan fo'n briodol. Dylech ysgrifennu o leiaf un ochr. [40]

**Galw am godi tâl i gerdded a pharcio er mwyn cerdded mynyddoedd**

- Pwysau mawr ar y llwybrau – tir yn erydu
- Problemau parcio yn cynyddu, llygredd
- Effaith ar yr amgylchedd – effeithio ar gynefinoedd a bioamrywiaeth
- Dylai mwynhau golygfeydd, bywyd gwyllt a threftadaeth naturiol a diwylliannol ardal fod yn rhad ac am ddim
- Costau cynnal a chadw yn £250,000 ar lwybrau'r Wyddfa, cost cynnal a chadw llwybr yn £180 y metr
- 450,000 o bobl yn heidio i lethrau'r Wyddfa a 250,000 i Ben y Fan yn flynyddol
- Yr Wyddfa yn croesawu mwy o ymwelwyr na Ben Nevis, Scafell Pike, Mont Blanc ac Everest wedi'u cyfuno
- Cost sgiliau cadwraeth
- Sbwriel – pryderon faint gaiff ei adael
- Trwydded i ddringo mynyddoedd yn beth cyffredin, e.e. Himalaya a Nepal; gall hyn dalu am gostau achub bywyd

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yn lansio apêl i godi £250,000 i drwsio llwybrau yn Eryri a diogelu cynefinoedd ucheldiroedd Eryri.

**Effaith codi tâl?**

- Effeithio ar economi'r ardaloedd lleol
- Llai yn ymddiddori mewn byd natur a daeareg

**Angen cydbwysedd rhwng pobl a'r amgylchedd**

- Angen twristiaeth gynaladwy
- Angen gwasanaeth bysiau cynaladwy

**Dyfyniadau**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
"Mi fydd yr arian a gaiff ei godi yn cyfrannu at drwsio dwy filltir a hanner o lwybrau yn Eryri ac yn cyfrannu tuag at amddiffyn bywyd gwyllt prin.''

**Gwynedd Watkin, Swyddog Undeb Amaethwyr Cymru**
"Byddai £10 yn bris teg i gerdded i fyny mynydd uchaf Cymru. Byddai angen creu rhyw fath o system adnabod fel bod cerddwyr yn gallu dangos trwydded i'r wardeiniaid pe bai angen.''

**Jonathan Cawley, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
"O ran y syniad o drwyddedu dw i'n meddwl bod 'na broblemau ymarferol a chyfreithiol.''

**Rhys Thomas, Ceidwad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Eryri**
"Dw i wedi bod yn creu ac yn trwsio llwybrau yn yr ardal ers wyth mlynedd. Mae'n waith anodd, araf a blinedig.''



Un o geidwaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio ar lwybr yn Eryri



Pen y Fan: Problemau parcio ar yr A470